COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 28 MAWRTH 2018 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | SK Dendy | DK Edwards |
| J Gebbie | RM Granville | CA Green | A Hussain |
| RM James | M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JR McCarthy | DG Owen | D Patel | RL Penhale-Thomas |
| AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands | B Sedgebeer |
| RMI Shaw | CE Smith | JC Spanswick | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| MC Voisey | LM Walters | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Giffard, DG Howells, B Jones, JE Lewis, SG Smith, SR Vidal a/ac KJ Watts

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Sarah Kingsbury | Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Helen Pembridge | Arweinydd Tim - Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

139. DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y Buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd JC Spanswick fuddiant niweidiol yn eitem agenda 12 – Datganiad ar y Polisi Cyflog 2018-19 gan fod aelodau o'i deulu yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod a gadawodd y cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem hon.

Datganodd y Cynghorydd DBF White fuddiant niweidiol yn eitem agenda 12 – Datganiad ar y Polisi Cyflog 2018-19 gan fod ei wraig yn cael ei chyflogi gan yr awdurdod a gadawodd y cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem hon. Hefyd datganodd y Cynghorydd White fuddiant personol yn yr eitem hon oherwydd bod ei ferch yn cael ei chyflogi gan yr awdurdod.

Datganodd y Cynghorydd PJ White fuddiant niweidiol yn eitem agenda 12 – Datganiad ar y Polisi Cyflog 2018-19 gan fod ei chwaer yn cael ei chyflogi gan yr awdurdod a gadawodd y cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem hon.

Datganodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Addysg a Cymorth Teuluol, Pennaeth Cyllid Dros Dro, Rheolwr Grŵp Cyfreithiol ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Cymdogaethau fuddiant yn eitem agenda 12 –Datganiad ar y Polisi Cyflog 2018-19 ac aethant o’r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o’r eitem hon.

140. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Cyngor ar 28 Chwefror 2018 fel rhai gwir a chywir.

141. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Dywedodd y Maer wrth y Cyngor am yr achlysuron roedd hi wedi’u bod yn bresennol ynddynt yn ystod y mis diwethaf, gan gynnwys taith o gwmpas Ysgol Heronsbridge, mynd i’r Dyfarniadau Rhagoriaeth mewn Adeiladu a dathliadau pen blwydd 100 oed 3 preswylydd yn y Cyngor Bwrdeistref. Roedd y Maer hefyd wedi ymweld ag Ysgol Gynradd Cefn Cribwr ac roeddent wedi bod mewn parti cinio ar gyfer Penaethiaid Dinesig a gynhaliwyd gan Arglwydd Faer Abertawe. Roedd y Maer hefyd yn falch o fod wedi cyflwyno dyfarniadau i unigolion a grwpiau yn y Dyfarniadau Dinasyddiaeth Blynyddol ac roedd hefyd wedi bod yn bresennol yng Ngwasanaeth Coffa Sul y Blodau yn Amlosgfa Margam. Hefyd bu’r Maer yn bresennol mewn digwyddiad a drefnwyd gan y Ganolfan Cynghori ar Bopeth ynghyd â’r Arweinydd, Aelodau Cabinet a Huw Irranca Davies AC.

Dirprwy Arweinydd

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth y Cyngor am y trefniadau diwygiedig ar gyfer casgliadau ailgylchu a gwastraff dros benwythnos y Pasg i ddod. Hefyd dywedodd wrth yr Aelodau am rai o’r canlyniadau o gyfarfod diweddar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, hynny y byddai adolygiad o'r system atgyfeirio Aelodau. Yn ogystal, tynnodd sylw’r Aelodau at y gofyniad iddynt gwblhau modiwlau E-ddysgu erbyn 1 Mehefin ac am yr hyfforddiant i ddod gyda'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau; sesiynau Datblygu Aelodau a briffiadau cyn y Cyngor.

Aelod Cabinet Cymunedau

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau ei fod wedi bod yn bresennol yn y Dyfarniad Rhagoriaeth mewn Adeiladu diweddar a drefnwyd gan y Tîm Rheoli Adeiladu. Dywedodd hefyd wrth yr Aelodau y byddai’r Cyngor yn recriwtio cyn bo hir i nifer o swyddi ar gyfer Patrolau Croesi Ysgolion lle y mae swyddi gwag.

Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod y cyngor wedi dathlu Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd trwy wahodd pobl i ddysgu rhagor am y rôl y mae gweithwyr cymdeithasol yn ei chwarae yn y gymuned. Hefyd gosodwyd arddangosfa yng nghyntedd y Swyddfeydd Dinesig a rhannodd rai o linellau cerdd a ysgrifennwyd yn ddienw gan weithiwr cymdeithasol.

Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau’r Dyfodol

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth y Cyngor ei bod yn falch o weld bod Gemma Hartnoll yn derbyn Dyfarniad Dinasyddiaeth y Maer am ei

menter WINGS Cymru, oedd yn treialu cynnig cynhyrchion mislif ar draws 14 ysgol yn y Bwrdeistref Sirol.

Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod y Cyngor wedi ymuno â'r grŵp CF31 BID er mwyn sicrhau y byddai parcio ceir am ddim yn parhau yn y Rhiw a gâi ei adolygu eto ym mis Ionawr 2019. Yn ogystal, rhannodd gyda'r Aelodau gyflawniadau diweddar Leanne Rees Sheppard o Ysgol Gynradd Tremains wrth gyrraedd rownd derfynol Cogydd Ysgol y Flwyddyn 2018 ac Ysgolion Cyfun Porthcawl a Bryntirion lle roedd mwy na 100 o ddisgyblion chweched dosbarth wedi gwneud rhoddion i Wasanaeth Gwaed Cymru. Dywedodd wrth Aelodau fod Ysgol Gynradd Litchard wedi derbyn sgôr 'da' drwyddi draw gan Estyn ym mhob un o'r pum maes arolygu allweddol. Cyhoeddodd hefyd fod Ysgol Heronsbridge wedi ennill achrediad aur gan y cynllun Buddsoddwyr mewn Pobl.

Prif Weithredwr

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Corfforol dros Wasanaethau Cymdeithasol ar ran y Prif Weithredwr y paratoadau sy'n cael eu gwneud gan y Cyngor ar gyfer cyflwyno Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a fydd yn dod i rym ar 25 Mai 2018. Bydd y RhDDC yn cymryd lle y Deddf Diogelu Data er mwyn cymryd i ystyriaeth symudiadau ymlaen o ran technoleg a goruchwylio sut y bydd sefydliadau'n prosesu gwybodaeth bersonol yn y dyfodol. Dywedodd wrth Aelodau fod polisïau'r Cyngor yn cael eu diweddaru er mwyn cymryd i ystyriaeth gweithdrefnau hysbysu am doriadau, polisïau prosesu teg, diweddariadau diogelu data, mynediad at bynciau a rhagor.

Swyddog Monitro

Atgoffodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol yr Aelodau o'r angen iddynt gwblhau a datgan yn ffurfiol unrhyw Drafodion Partïon Perthynol erbyn 13 Ebrill 2018 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18.

142. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweiniad wrth y Cyngor fod yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol yn ceisio barn ar ad-drefnu llywodraeth leol. Mae'r Papur Gwyrdd yn gosod cynnig i leihau Cynghorau o 22 i 10, gyda Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tydfil yn cael eu cyfuno i awdurdod sengl. Dywedodd Aelodau, ar yr un pryd, bod y Cyngor yn aros am benderfyniad ar newidiadau i ffiniau'r bwrdd iechyd, a fyddai'n golygu bod y Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud i'r ABMU i Gwm Taf.

Hefyd, dywedodd yr Aelodau fod y Cyngor wedi cael ei ddiolch gan Awdurdod Llywodraeth Leol Cymru am ei gyfranogiad yn y Cynllun Ailsefydlu sy'n Agored i Niwed. Dywedodd fod yr CLILC wedi gofyn faint o ffoaduriaid eraill mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn gallu ailsefydlu yn y flwyddyn ariannol i ddod ac am weddill y rhaglen ailsefydlu a fydd yn ymestyn i 2020. Roedd yr Arweinydd wedi ymateb i'r CLILC trwy ddweud y bydd ailsefydlu pellach yn amodol ar argaeledd tai a chapasiti ysgolion. Roedd hefyd wedi egluro i'r CLILC fod y Cyngor yn rhagweld gallu cynnig llety i bum teulu arall yn ystod gweddill y rhaglen ond nid oedd yn gallu cadarnhau union nifer y ffoaduriaid oherwydd byddai hyn yn dibynnu ar faint y teuluoedd.

143. NEWID ARFAETHEDIG I FFINIAU'R BWRDD IECHYD

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Allison Williams, y Prif Weithredwr a'r Athro Marcus Longley, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i annerch y Cyngor ar y Newid Arfaethedig i Ffiniau'r Bwrdd Iechyd.

Esboniodd Prif Weithredwr Cwm Taf i'r Cyngor ei bod yn y swydd ers 7 mlynedd. Dywedodd fod Pen-y-Bont ar Ogwr wedi elwa'n fawr ar fod yn rhan o'r ABMU a'i fod wedi bod ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau i'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Dywedodd wrth y Cyngor ei bod yn ddiolchgar am y trafodaethau cynnar a gynhaliwyd gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles cyn i benderfyniad gael ei wneud gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y newid arfaethedig i ffiniau'r Bwrdd Iechyd.

Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf wrth y Cyngor fod Cwm Taf wedi arwain ar wasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn a gofal dementia. Dywedodd nad yw Cwm Taf eisiau ansefydlogi gwasanaethau a byddai unrhyw newidiadau i wasanaethau clinigol yn destun ymgynghoriad. Sicrhaodd i Aelodau fod buddion sylweddol i gleifion yn parhau i dderbyn triniaeth gan yr ysbytai lle y maent yn derbyn y driniaeth honno ar hyn o bryd. Dywedodd fod Cwm Taf yn cymryd yr awenau mewn academi delweddu, i hyfforddi radiolegwyr y dyfodol ac y byddai'n agor cyfleuster newydd ym Mhencoed ar ddiwedd mis Ebrill.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor a fyddai gan Gwm Taf ymrwymiad i gynnal Ysbyty Gymunedol Maesteg. Sicrhaodd Prif Weithredwr Cwm Taf y Cyngor, yn ystod ei hamser yn y swydd, roedd Cwm Taf wedi adeiladu 2 ysbyty cymunedol ac wedi datblygu 2 barc iechyd cymunedol a rhoddodd ymrwymiad i wasanaethau iechyd cymunedol yn parhau.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor a fyddai preswylwyr, lle y bo'n bosibl yn derbyn gwasanaethau o Ysbyty Treforys neu UHW yng Nghaerdydd yn dibynnu ar ble maent yn byw yn ogystal â gwasanaethau yn cael eu darparu gan Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf y byddai cleifion sydd angen gofal trydyddol yn mynd naill ai i Ysbyty Treforys neu UHW. Roedd yn rhagweld y tri ysbyty sef Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Brenhinol Morgannwg a Ysbyty'r Tywysog Siarl yn gweithio gyda'i gilydd—maen nhw i gyd o faint tebyg, ond byddai hyblygrwydd o ran staffio'r ysbytai hynny yn dilyn newid i ffin y bwrdd iechyd. Dywedodd fod cryfderau ac arbenigeddau penodol yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg a fyddai o fydd i'r rhanbarth poblogaeth ehangach. Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf wrth y Cyngor fod newid yn ffin y bwrdd iechyd hefyd yn achosi cyfleoedd gwahanol.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor ei fod wedi cyfarfod yn ddiweddar ag Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf a oedd yn hyderus y cyrhaeddid penderfyniad yn fuan gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y newid arfaethedig i ffin y bwrdd iechyd. Wedyn byddai angen ffurfio cynllun ar y cyd ar gyfer y bwrdd iechyd diwygiedig.

Sicrhaodd y Prif Weithredwr i Aelodau mai dyma'r unig newid posibl i ffiniau'r bwrdd iechyd sydd dan ystyriaeth ac nid yw'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad diweddar gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol ar ad-drefnu llywodraeth leol.

Dywedodd aelod o'r Cyngor fod gofyn trawsnewid di-dor ar y newid posibl i'r ffin iechyd a gofynnodd a gaiff cynllun cyfathrebu ei roi ar waith. Sylwodd Prif Weithredwr Cwm Taf ei fod yn hanfodol bwysig er mwyn hyder y cyhoedd a morâl y staff, y mae llawer ohonynt yn byw yn y cymunedau y mae Cwm Taf yn eu gwasanaethu, fod cynllun cyfathrebiadau yn cael ei roi ar waith, oherwydd y bydd y newidiadau'n cael effaith ar 3 awdurdod lleol. Dywedodd y caiff nifer o ffrydoedd gwaith eu rhoi ar waith i ymwneud â'r

gweithlu, llywodraethu, cyllid a chyfathrebu. Dywedodd y Cyngor os caiff hyn ei wneud yn iawn, ni sylwid arno gan y cymuned; fodd bynnag bydd y gymuned yn sylwi ar fuddion y newidiadau.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Chwm Taf ar fapio blaenoriaethau a'i fod yn bwysig bod y Cyngor yn rhan o'r trawsnewid hynny.

Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf wrth y Cyngor fod ymarfer cwmpasu ar y cyd yn cael ei wneud ond gallai hyn ond yn gallu mynd yn ei flaen mor bell nes bod penderfyniad wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Cabinet.

Sylwodd aelod o'r Cyngor fod cleifion eisiau cael eu trin yn lleol a mynegwyd pryder y bydd rhaid i gleifion deithio i Ferthyr Tudful o bosibl ar gyfer apwyntiad, sy'n weddol pell o Ben-y-bont ar Ogwr. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor y byddai'n rhaid bod angen clinigol a brofwyd i glaf deithio o Ben-y-bont ar Ogwr i Ferthyr Tudful neu i'r gwrthwyneb a byddai'n rhaid bod rheswm da dros y newid hwnnw. Bydd triniaeth yn cael ei darparu orau yn agosach i'r cartref lle byddai llifau cleifion naturiol. Mae llif cleifion naturiol rhwng Pen-y-Bont ar Ogwr ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ond ni d oedd unrhyw lif cleifion naturiol rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Dywedodd fod cyfleuster technegol newydd yn cael ei ddatblygu a fyddai'n newid y ffordd y caiff gwasanaethau i bobl sydd wedi cael strôc ei darparu. Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf y Cyngor nad oedd gwasanaethau eu targedu i'w dileu a byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn destun ymgynghoriad.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor a oedd gan yr Ysgrifennydd Cabinet reswm dros y cynigion ar gyfer cyfuno. Dywedodd yr Arweinydd y Cyngor fod y newid arfaethedig i'r ffiniau iechyd yn ffurfio rhan o'r drafodaeth ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus a bod y rhan fwyaf o gydweithio'r Cyngor yn seiliedig ar ôl troed dwyreiniol, tra bod yr unig gydweithio a oedd ganddo i'r gorllewin mewn perthynas ag iechyd. Dywedodd y byddai'n ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet gan ofyn ei fod yn gwneud penderfyniad ar y cynnig cyn gynted ag y bo modd.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i'r Prif Weithredwr am fod yn bresennol yn y Cyngor a deall pryderon yr Aelodau.

Diolchodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Cwm Taf yr Aelodau am y cyfle i drafod y newid arfaethedig i ffin y bwrdd iechyd a sylwodd y câi barn yr Aelodau eu bwydo'n ôl i'r Bwrdd Iechyd. Dywedodd wrth yr Aelodau nad oes unrhyw resymeg i'r cynigion ac ymagwedd gyffredin ac roedd yn edrych ymlaen at y cyfleoedd a'r heriau a oedd ar y gorwel.

144. GOSTYNGIAD AR Y DRETH GYNGOR I'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL

Ceisiodd Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 gymeradwyaeth ar gyfer y meini prawf arfaethedig dros weithredu Gostyngiad i bobl sy'n gadael gofal.

Dywedodd fod adroddiad yn 2015 gan Gymdeithas y Plant yn awgrymu bod pobl sy'n gadael gofal yn grŵp arbennig o agored i niwed ar gyfer dyledion y dreth gyngor a phan fydd y bobl sy'n gadael gofal yn symud i mewn i lety annibynnol ac yn dechrau rheoli eu cyllideb eu hun am y tro cyntaf, maent yn ei gael yn heriol, yn enwedig os byddant yn syrthio ar ei hôl hi gyda'r dreth gyngor. Cafodd nifer o argymhellion eu gwneud gan Gymdeithas y Plant, gan gynnwys sicrhau bod pobl sy'n gadael gofal yn cymwys ar gyfer gostyngiad ar y dreth gyngor.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog 151 fod gan y Cyngor y pŵer i leihau atebolrwydd i'r dreth gyngor mewn perthynas ag achosion unigol neu ddosbarth(iadau)

achosion y bydd yn eu pennu o bosibl. Dywedodd nad oedd unrhyw eithriad ar gyfer pobl sy'n gadael gofal mewn deddfwriaeth Treth Gyngor ar hyn o bryd felly yr unig fodd o gyflawni eithriad oedd rhoi gostyngiad dewisol o dan y ddeddfwriaeth.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 ar gynnig i roi gostyngiad i bob un sy'n gadael gofal sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hyd at 25 oed fel y'i diffinnir gan ddiffiniad rhywun sy'n gadael gofal yn Neddf Plant (Sy'n gadael gofal) 2000 ac y dylai fod yn gymwys o 1 Ebrill 2018.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth gymeradwyo'r cynnig, ei fod yn ymrwymiad cymharol fach i'r awdurdod ei wneud, ond byddai'r effaith ar bobl sy'n gadael gofal yn enfawr.

Dywedodd yr Arweinydd, wrth ymateb i gwestiwn gan aelod y Cyngor o ran sut y byddai'r cynnig yn ffitio i mewn gyda'r flaenoriaeth gorfforaethol, sef helpu pobl i fod yn fwy hunan-ddibynnol, fod pobl sy'n gadael gofal yn wynebu rhwystrau sylweddol ac yn ei gael yn heriol rheoli eu cyllideb eu hunain am y tro cyntaf.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn:

(1) cymeradwyo'r meini prawf a gynigiwyd ar gyfer gweithredu'r Gostyngiad i bobl sy'n gadael gofal fel y nodwyd yn Atodiad A yr adrodd, gan ei gymhwyso i bobl sy'n gadael gofal hyd ar 25 oed;

(2) dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyllid i benderfynu ar geisiadau dilys sy'n dod i law sy'n bodloni'r meini prawf yn Atodiad A yr adroddiad.

145. BARGEN DDINESIG RHANBARTH PRIFDDINAS CAERDYDD – CYNLLUN BUSNES Y CYTUNDEB GWEITHIO AR Y CYD

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau Gynllun Busnes y Cytundeb Gweithio ar y Cyd (JWA) a gafodd ei argymell gan Gabinet Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a cheisiodd ei fabwysiadu fel y "Cynllun Busnes JWA" ffurfiol.

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y byddai'r Cynllun Busnes Cytundeb Gweithio ar y Cyd yn mynd i'r afael â'r Amlen Fforddiadwyedd a ddiweddarwyd, y fethodoleg ar gyfer cytuno ar natur, cwmpas a blaenoriaeth projectau i'w datblygu er budd cyffredinol Prifddinas-ranbarth Caerdydd, methodoleg a chyfrifoldeb dros unrhyw archwiliadau allanol, a monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cyfalaf a refeniw i'w paratoi gan y Cydbwyllgor, a pha mor aml y gwneir yr adroddiadau hyn. Dywedodd y cyfeirid at y Cynllun Busnes JWA Drafft fel y Cynllun Busnes Strategol CCR ar gyfer y Gronfa Buddsoddi Ehangach er mwyn adlewyrchu ei statws a'i ffocws.

Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y cyd-destun strategol a blaenoriaethau gofodol y Cynllun Busnes Cytundeb Gweithio ar y Cyd drafft, a nododd y cyfleoedd oedd yn codi o fewn cyfnod y cynllun. Eglurodd fod y cytundeb â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi darparu £1.2 biliwn, ac roedd £734m ohono wedi'i neilltuo i'r Metro, a rhoddwyd y £495m a oedd yn weddill i'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach. Roedd y Cabinet Rhanbarthol wedi nodi bod uchelgeisiau uchel y Gronfa Fuddsoddi Ehangach wedi arwain at 25,000 o swyddi newydd a £4bn o fuddsoddiad sector preifat. Cafodd y buddsoddiad cyntaf ei wneud yn y Project Lled-ddargludyddion Cyfansawdd drwy roi benthyciad o £38.5m gyda'r posibilrwydd o greu 2,000 o swyddi a thros £380m o fuddsoddiad sector preifat. Eglurodd fod y Cabinet Rhanbarthol, yn dilyn y buddsoddiad cychwynnol hwn, wedi cytuno mewn egwyddor i gefnogi Project Metro

Canolog, Cronfa Buddsoddi Tai Rhanbarthol, Strategaeth Ddigidol a Sgiliau ar gyfer y Dyfodol.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 fod y cyfraniad y Cyngor i'r CCRD yn £11.328 miliwn (9.4% o ofyniad cyllid cyfalaf Partneriaeth yr Awdurdod Lleol cyffredinol) a bod pwysau cyllideb cylchol o £598,000 yn cael ei gynnwys o fewn MTFS yn 2017-18 i ariannu cyfraniad y Cyngor. Roedd hyn y seiliedig ar y proffil ariannu ar yr adeg honno. Esboniodd, oherwydd newid yn y proffil ariannu, roedd gofyn i'r Cyngor dalu tua £2,299,950 cyn diwedd blwyddyn ariannol 2017-18. Byddai hyn yn lleihau'r taliadau yn hwyrach a bydd angen ail-broffilio'r cyllido o fewn y rhaglen gyfalaf, ond o fewn yr un amlen rhaglen gyffredinol. Dywedodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith ar argaeledd cyllid cyfalaf, cynigiwyd y dylid talu gweddill y cyllid a oedd yn ofynnol uwchben y gyllideb o £598,000 a oedd ar gael (£1,701,950) o'r tanwariant o fewn cyllidebau eraill ledled y Cyngor, a fyddai'n gofyn am hawl trosglwyddo arian o'r gyllideb hon i gyllideb Cyfarwyddiaeth y Cymunedau y caiff y taliad ei wneud ohoni a chyllid ar gyfer y cynllun o fewn y rhaglen cyfalaf.

Anerchodd y Cynghorydd Andrew Morgan, sef Cadeirydd Bargen Dinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd y Cyngor a mynegodd ei ddiolchiadau i Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, oedd, ynghyd â'r Cynghorydd Peter Fox, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy wedi chwarae rôl arweiniol yn natblygu'r Fargen Ddinesig. Dywedodd fod pob un o'r 10 o awdurdodau lleol yn y Cabinet Rhanbarthol yn bartneriaid rhanbarthol ac mae ganddynt bleidleisiau cyfartal wrth wneud penderfyniadau i fuddsoddi. Dywedodd wrth y Cyngor, yn dilyn y buddsoddiad cynaf a wnaed yn y Project Lled-ddargluyddion Cyfansawdd, roedd ar y trywydd cywir i ddarparu 2,500 o swyddi sgiliau uchaf. Roedd y ffatri gyfagos hefyd wedi'i sicrhau, er mwyn cynhyrchu £420 miliwn o fuddsoddiad y sector preifat o ganlyniad i'r benthyciad o £38.5 miliwn a wnaed gan y Fargen Ddinesig. Dywedodd wrth y Cyngor y byddai'r Gronfa Buddsoddi mewn Tai yn gweld yr eir i'r afael â safleoedd tir llwyd a bydd yn gyrru cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a graddedigion.

Cwestiynodd aelod o'r Cyngor yr effaith y byddai'r hawl trosglwyddo arian yn ei gael ar gyllideb Cyfarwyddiaeth y Cymunedau. Cadarnhaodd yr Arweinydd na fyddai unrhyw effaith ar Gyfarwyddiaeth y Cymunedau gyda hawl a gynigir i drosglwyddo'r gyllideb.

Cwestiynodd y Cyngor sut y byddai'r Gronfa Buddsoddi mewn Tai yn helpu busnesau bach ac adeiladwyr a chefnogi cyflogwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr oherwydd y gred oedd y byddai'n ffafrio adeiladwyr sy'n adeiladu llawer o dai. Dywedodd yr Arweinydd y byddai Pen-y-bont at Ogwr yn elwa ar Sgiliau'r Dyfodol a byddai'r Gronfa Buddsoddi mewn Tai yn cael ei dargedu tuag at adeiladwyr llai. Hefyd byddai'r Bwrdeistref Sirol yn elwa ar y Strategaeth Ddigidol a chysylltiadau trafnidiaeth gwell a fyddai'n deillio o Broject Canolog y Metro. Dywedodd wrth y Cyngor y bydd tua 7,000 o bobl yn gadael Pen-y-bont ar Ogwr i deithio i Gaerdydd bob dydd ac mae pobl yn cael eu cyflogi ledled y rhanbarth. Dywedodd na all neb ddweud i sicrwydd pa fuddion y byddai'r Fargen Ddinesig yn dod â nhw i Ben-y-bont ar Ogwr.

Sylwodd aelod o'r cyngor mai un o'r rhwystra mwyaf i ffyniant economaidd ar draws y rhanbarth yw'r tagfeydd traffig ar yr M4 o gwmpas Casnewydd a gofynnodd pryd y byddai'r draffordd yn cael ei huwchraddio er mwyn lliniaru'r tagfeydd hynny. Sylwodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd ei fod yn cefnogi'r llwybr du a phob tro iddo gyfarfod arweinyddion busnes, roeddent wedi gofyn yr eir i'r afael i'r broblem o dagfeydd traffig o gwmpas Casnewydd. Dywedodd ei fod yn gwneud pethau'n anos i'r rhanbarth pan fydd problemau cysylltedd yn bodoli a bod angen gwneud penderfyniad ar y llwybr o ddewis o gwmpas Casnewydd yn ddi-oed.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor sut y câi'r Fargen Ddinesig ei ariannu gan yr awdurdodau lleol o ystyried y cynigion dros ad-drefnu lleol. Dywedodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd fod Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi neilltuo cyllid er mwyn cynhyrchu gwarged na fyddai'n cael effaith ar gyllideb y Cyngor. Dywedodd fod pob un o'r 10 awdurdod lleol wedi ymrwymo i'r Fargen Ddinesig a dyma fyddai'r nawfed Cyngor i bleidleisio ar gynigion ar gyfer y Cynllun Busnes ar gyfer Gweithio ar y Cyd. Roedd y Cynghorau a oedd wedi pleidleisio o'r blaen wedi gwneud yn unfrydol. Datganodd y sicrhawyd iddo na fyddai ad-drefnu llywodraeth leol lyn rwystr a fyddai'n peryglu'r Fargen Ddinesig. Sylwodd yr Arweinydd fod y Cyngor hwn wedi cyllidebu ar gyfer y Fargen Ddinesig yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) ac mae'n fforddiadwy ac y byddai cyllid o £375m yn cael ei drosoli o Lywodraeth y DU ledled y rhanbarth.

Cwestiynodd aelod o'r Cyngor y risg i'r MTFS o ddefnyddio'r tanwariant a sut yr eir i'r afael â fforddiadwyedd. Dywedodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 mai'r strategaeth yw ariannu'n fewnol lle y bo'n bosibl a bod y cynnig yn newid o ran proffilio a fydd yn lleihau'r costau ar refeniw a benthyca ac yn ddefnydd darbodus ar adnoddau.

Sylwodd aelod o'r Cyngor ei fod yn ymddangos y byddai'r cynnig gerbron yn Cyngor yn ffafrio Caerdydd a fyddai'n cael mwy o elw ar eu buddsoddiad a byddai buddion y Fargen Ddinesig ond yn cael eu gwireddu yng Nghaerdydd. Hefyd mynegwyd pryder oherwydd defnydd arfaethedig o £1,701,950 a'i effaith ar danwariant. Sylwodd yr Arweinydd mai dim ond un project a gafodd ei gymeradwyo hyd yn hyn, sef Project Lled-ddargludyddion yng Nghasnewydd sy'n destun benthyciad ac nid grant. Dywedodd y bydd yr hyb Metro o fudd i'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd ac y byddai rhaglenni eraill yn y Fargen Ddinesig o fudd i Ben-y-bont ar Ogwr. Dywedodd hefyd y byddai'r Gronfa Buddsoddi Tai o fudd i gymunedau'r cymoedd ac y byddai pob cymun yn elwa ar sgiliau digidol a chysylltedd gwell. Sicrhaodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a Swyddog Adran 151 na fyddai unrhyw effaith ar gyllidebau ac y byddai tanwariant yn cael ei ystyried. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau na fyddai'r buddsoddiad yn y Fargen Ddinesig yn cael ei grynhoi yng Nghaerdydd ond byddai'n cael ei wasgaru ledled y rhanbarth. Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor fod y cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer project y Metro yn cael arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod yr awdurdodau lleol yn cael dylanwad uniongyrchol ar y projectau eraill. Dywedodd hefyd fod mwy na 20 o Fargeinion Dinesig yn y DU a bod 2 o Lywodraethau olynol y DU wedi cyflawni pob Bargen Ddinesig ac wedi cofrestru gyda dilyniannau i Fargeinion Dinesig – roedd angen sicrhau bod y rhanbarth hwn yn elwa ar y buddsoddiad. Rhoddodd wybod i'r Cyngor y byddai pob project yn gorfod mynd trwy'r fframwaith a bod yn gallu dangos eu bod yn rhoi buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat.

Mynegwyd pryder ynglŷn â phenderfyniad i beidio â thrydanu'r rheilffordd i'r gorllewin o Gaerdydd a diffyg gwasanaeth trenau bob hanner awr i Faesteg, tra bod Caerdydd yn cael hyb trafnidiaeth newydd a chwestiynwyd y buddion i Ben-y-bont ar Ogwr. Sylwodd y Dirprwy Arweinydd fod IQE, gwneuthurwr y lled-ddargludyddion yn gweithio gyda Choleg Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau y caiff y cyrsiau cywir eu cyflwyno er mwyn cefnogi'r swyddi sgiliau uchel hynny a galluogi cenedlaethau'r dyfodol. Sylwodd Aelod Cabinet y Cymunedau fod yr uwchraddiad i linell y cymoedd yn fuddiol i Pen-y-bont ar Ogwr ac y bydd project y Fargen Ddinesig yn para am 30 mlynedd.

Mynegodd aelod bryder fod llawer o gymunedau'r cymoedd yn cynnwys eiddo gwag ac y bydd rhagor o dai yn gwaethygu'r broblem, hefyd mynegwyd pryder na fyddai Pen-y-bont ar Ogwr yn elwa ar y Fargen Ddinesig. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau fod rhestr hir o gynlluniau cyfalaf sy'n aros i fynd trwy'r fframwaith. Dywedodd fod y Fargen Ddinesig ynglŷn â ffyniant i'r rhanbarth ac ni chaiff ei chyfyngu i ffiniau.

Mynegwyd pryder oherwydd rheolaeth ariannol y Fargen Ddinesig a bod yr awdurdodau'n cael eu gwneud yn wystl gan orfod gwneud rhagor o fuddsoddiadau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod yr awdurdodau lleol yn gweithio i hyd i'r un amlen ariannol a mai'r cyllid mewnol arfaethedig o danwariant oedd yr un fwyaf darbodus.

Cynigwyd ac eiliwyd y câi pleidlais gofnodedig ei gwneud ar y cynigion sy'n gynwysedig yng Nghynllun Busnes y Cytundeb ar Weithio ar y Cyd, ond yn gyntaf, roedd gofyn am bleidlais electronig er mwyn gweld bod consensws o Aelodau ar gyfer hwn.

Felly cymerwyd pleidlais electronig a dyma'r canlyniad:-

| O blaid (pleidlais a gofnodwyd) | Yn erbyn | Ymatalwyd |
|---|---|---|
| 38 | 7 | 0 |

Gan y cariwyd y bleidlais dros bleidlais gofnodedig, ymgymerwyd â hyd, a dyma'r canlyniad:-

| O blaid | Yn erbyn | Ymatalwyd |
|---|---|---|
| 37 | 7 | 3 |

| **Bargen Dinesig (Penderfyniad)** | |
|---|---|
| Cynghorydd Sean Aspey | O blaid |
| Cynghorydd Stuart Baldwin | O blaid |
| Cynghorydd Tom Beedle | Yn erbyn |
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | O blaid |
| Cynghorydd Nicole Burnett | O blaid |
| Cyngorydd Mike Clarke | O blaid |
| Cynghorydd Norah Clarke | O blaid |
| Cynghorydd Richard Collins | O blaid |
| Cynghorydd Huw David | O blaid |
| Cynghorydd Paul Davies | O blaid |
| Cynghorydd Pam Davies | O blaid |
| Cynghorydd Sorrel Dendy | Ymatalwyd |
| Cynghorydd Keith Edwards | Yn erbyn |
| Cynghorydd Jane Gebbie | O blaid |
| Cynghorydd Richard Granville | O blaid |
| Cynghorydd Cheryl Green | O blaid |
| Cyngorydd Altaf Hussain | O blaid |
| Cynghorydd Malcolm James | Yn erbyn |
| Cynghorydd Martyn Jones | O blaid |
| Cynghorydd Mike Kearn | O blaid |
| Cynghorydd David Lewis | O blaid |
| Cynghorydd John McCarthy | O blaid |
| Cynghorydd David Owen | O blaid |
| Cynghorydd Dhanisha Patel | O blaid |
| Cynghorydd Ross Penhale-Thomas | Yn erbyn |
| Cynghorydd Aniel Pucella | Ymatalwyd |
| Cynghorydd James Radcliffe | Yn erbyn |
| Cynghorydd Kay Rowlands | O blaid |
| Cynghorydd Bridie Sedgebeer | O blaid |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Rod Shaw | O blaid |
| Cynghorydd Charles Smith | O blaid |
| Cynghorydd John Spanswick | O blaid |
| Cynghorydd Roz Stirman | Yn erbyn |
| Cynghorydd Gary Thomas | O blaid |
| Cynghorydd Tim Thomas | Yn erbyn |
| Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE | O blaid |
| Cynghorydd Elaine Venables | Ymatalwyd |
| Cynghorydd Matthew Voisey | O blaid |
| Cynghorydd Lyn Walters | O blaid |
| Cynghorydd Carolyn Webster | O blaid |
| Cynghorydd David White | O blaid |
| Cynghorydd Philip White | O blaid |
| Cynghorydd Alex Williams | O blaid |
| Councillor Amanda Williams | O blaid |
| Cynghorydd Hywel Williams | O blaid |
| Cynghorydd Julia Williams | O blaid |
| Cynghorydd Richard Young | O blaid |
| **Carriwyd** | |

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo:

(a) Y Cynllun Busnes JWA atodedig fel Atodiad A.

(b) Trosglwyddo’r gyllideb o £1,701,950 o danwariant ar gyllidebau eraill ar draws y Cyngor i’r Gyfarwyddiaeth Cymunedau er mwyn gwneud y taliad yn llawn o gyllidebau refeniw yn 2017-18, ac y dylai'r cynllun gael ei ail-broffilio yn unol â hynny o fewn y rhaglen gyfalaf.

146. CYNLLUN LLES Y BWRDD GWASANAETHAU LLES

Gwahoddodd yr Arweinydd Andrew Davies, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflwyno ei Gynllun Lles i’w gymeradwyo

Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth y Cyngor fod y Bwrdd wedi datblygu pedwar amcan lles gan ddefnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd gan bartneriaid a derbyn adborth gan ddinasyddion, sef;

- Y Dechrau Gorau mewn Bywyd;
- Cefnogi Cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn Ddiogel ac yn Gydlynol;
- Lleihau Mentrau Cymdeithasol ac Economaidd
- Dewisiadau Iach mewn Amgylchedd Iach

Bu’r Cynllun Lles drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, a derbyniwyd 329 o ymatebion. Cafodd adborth ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad a nododd un mater sylweddol, sef bod angen i'r cynllun fod yn fwy eglur o ran sut y bydd y camau arfaethedig yn mwyhau'r cyfraniad i'r nodau lles cenedlaethol. Roedd Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol wedi rhoi adborth manwl a bwysleisiodd pwysigrwydd dangos sut mae’r PSB wedi ystyried pob un o’r pum ffordd o weithio mewn perthynas â phob amcan. Hefyd, roedd y Comisiynydd wedi rhoi cyngor ar sut y gallai’r PSB gymryd camau o bosibl i ateb yr amcanion gan gynnwys cysylltiadau ag ymchwil ac astudiaethau eraill. Hefyd, mae swyddfa’r Comisiynydd wedi dweud y bydd yn edrych ar sut y gall amcanion cyrff cyhoeddus unigol gyfrannu at gyflwyno’r cynllun lles.

Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod rhaid i bob un o aelodau statudol y PSB gytuno ar y Cynllun Lles, y mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn 4 Mai 2018. Talodd teyrnged i'r awdurdod a'r Prif Weithredwr a'r staff am y ffordd y mae'n gweithredu'r PSB. Dywedodd, er y caiff y Cynllun ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth, sylwodd ar bwysigrwydd y PSB yn destun craffu.

Diolchodd yr Arweinydd i Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am ei ymrwymiad personol i'r PSB a chofnododd ei ddiolchiadau i Mr Davies fel rhan o Fwrdd Iechyd ABMU.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn Cymeradwyo Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 147. ADOLYGIAD O BROSES ADRODDIADAU BLYNYDDOL I AELODAU ETHOLEDIG

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol ar argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ddiweddaru’r adroddiadau i Aelodau Etholedig a’r broses adrodd gysylltiedig. Hefyd ceisiodd gymeradwyaeth ar y broses i’w ddefnyddio ar gyfer Adroddiadau Blynyddol i Aelodau Etholedig fel y'i argymhellwyd ar gyfer pob Aelod.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol fod y Mesur Llywodraeth (Cymru) 2011 am wneud trefniadau i bob Aelod Etholedig wneud a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar eu gweithgareddau. Dywedodd fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2018 wedi cael gwybod am y broses ddiwygiedig ar gyfer Adroddiadau Blynyddol, a adlewyrchodd newidiadau i’r wybodaeth am Aelodau Etholedig sydd ar gael ar hyn o bryd ar wefan y Cyngor, gweithredu Safonau’r Iaith Gymraeg a lleihau'r adnoddau i greu, gweinyddu a chyhoeddi Adroddiadau Blynyddol yn Gymraeg a Saesneg.

Cwestiynodd aelod o’r Cyngor a oes proses adolygu ar waith i sicrhau bod y cyfieithiad o'r adroddiad Blynyddol a ddychwelir gan y cyfieithydd yn gywir ac yn ddiduedd. Dywedodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol fod fframwaith ar waith a bod rhaid i gyfieithwyr gael eu hachredu cyn y gallant gael eu derbyn i'r fframwaith gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

PENDERFYNWYD: Y byddai’r Cyngor yn:

(1) cymeradwyo’r diwygiad i broses yr Adroddiad Blynyddol a’r amserlen cyhoeddi arfaethedig ar gyfer Adroddiadau Blynyddol

(2) nodi bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi dynodi'r hyfforddiant i Aelodau Etholedig fel “argymhellwyd ar gyfer pob Aelod”.

## 148. ADOLYGIAD O’R BROSES ADOLYGIAD DATBLYGIAD PERSONOL (PDR)

Adroddodd Arweinydd y Grŵp Cyfreithiol ar argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â’r cynigion i’r broses Adolygu Datblygiad Personol (PDR) fod ar gael i bob Aelod Etholedig. Amlygodd elfennau allweddol y broses PDR fel y’u nodwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Bu’r broses PDR flaenorol yn destun adolygiad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau’n addas i’r diben.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol fod 3 opsiwn ar gyfer templedi cyfweliadau wedi'u hystyried o'r blaen, ac ystyriwyd y Ddogfen Adolygu Datblygiad Personol gan y Cyngor yn 2013 fel yr un fwyaf addas i’w defnyddio. Cafodd pob un o'r 3 ffurflen templed ei

hadolygu er mwyn ei hail-hystyried i'w defnyddio yn y dyfodol yn y broses PDR. Amlygodd y broses i'w cymryd er mwyn cyflwyno PDRau ac er mwyn hwyluso ei weithredu yn llwyddiannus, darperir sesiynau hyfforddi.

Amlygodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol y broses ar gyfer adnabod adolygwyr a'r amserlenni er mwyn cyrraedd y dyddiadau cau am gyflwyno Siarter y CLILC, ei weithredu a chwblhau PDRau yn llwyddiannus ar gyfer Deiliaid Cyflogau Uwch.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn:

(1) cymeradwyo gweithredu'r ddogfen Adolygiad Datblygiad Personol fel y cerbyd i symud y broses PDR ymlaen yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
(2) cymeradwy'r gweithgareddau a'r amserlen arfaethedig a ddangosir;
(3) nodi bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi dynodi'r hyfforddiant i Aelodau Etholedig fel "argymhellwyd ar gyfer pob Aelod".

149. DATGANIAD POLISI CYFLOG – 2018/19

Adrodd Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol fod Deddf Lleoliaeth 2011 yn gofyn i awdurdodau lleol gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad o'r Polisi Cyflog a chyflwynodd y Datganiad o'r Polisi Cyflog wedi'i ddiweddaru i'r Cyngor ei ystyried ar gyfer y flwyddyn 2018/19.

Dywedodd fod y Datganiad ar y Polisi Cyflog yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Lleoliaeth 2011. Mae negodi yn mynd rhagddo ar fargen dwy flynedd gyda chyflogeion NJC, ond ni chawsant eu gorffen. Dywedodd fod y polisi Colli Swyddi ac Adleoli wedi'i atodi i'r Datganiad ar y Polisi Cyflog yn ôl y gofyn.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai hyn yn gyfarfod olaf y Cyngor lle y byddai Sarah Kingsbury, Pennaeth Adnoddau Dynol yn bresennol, cyn iddi hi ymddeol. Cofnodwyd ei ddiolchiadau i Ms Kingsbury am roi arweiniad cryf yn ei rôl.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cyngor y Datganiad a ddiweddarwyd ar y Polisi Cyflog.

150. I DDERBYN Y CWESTIYNAU DILYNOL I'R CABINET: CYNGHORYDD A HUSSAIN, CYNGHORYDD T THOMAS A CYNGHORYDD M VOISEY

**Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio gan y Cynghorydd A Hussain**

Mae Heddlu De Cymru wedi galw am addysg iechyd meddwl well mewn ysgolion ar ôl cynnydd o ran pobl ifanc yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chafodd hyn ei gefnogi gan Mind Cymru ac maen nhw eisiau i ysgolion wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a chamu i'r adwy i helpu'r rhai sy'n cael problemau ynghynt.
A all yr Aelod Cabinet dros Addysg roi gwybod i'r Cyngor sut mae e'n mynd i'r afael â'r mater pwysig hwn?

**Ymateb:**
Mae nifer o wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan BCBC sy'n ceisio gwella iechyd meddwl a lles plant. Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau hyn yn canolbwyntio ar lefel Haen 1 ond mae rhai yn wasanaethau Haen 2. Byddant yn cynnwys:

**Haen 1**

- Ymyriadau yn yr ysgol (e.e. darparu magwraeth, addysg bersonol a chymdeithasol, Cyflawniad i Bawb, Thrive ac ELSA)
- Ymyriadau gwaith cymdeithasol (e.e. damcaniaeth ymlyniad, damcaniaeth ymddygiad gwybyddol a gwaith uniongyrchol gyda phlant)
- Cefnogaeth nyrs yr ysgol
- Gofal bugeiliol mewn ysgolion
- Gwaith gwrth-fwlio mewn ysgolion a chyda'r Tîm Cymorth Cynnar
- Dechrau'n Deg – cefnogaeth ychwanegol gan ymwelwyr Iechyd
- Iaith a chwarae, rhif a chwarae a sesiynau cymorth iaith a lleferydd Welcomm
- Cefnogaeth rhianta
- Cefnogaeth i ofalwyr ifanc

**Haen 2**

- Mae un gweithiwr cymdeithasol CAMHS arbenigol (rhan amser) yn y Tîm Cymorth Cynnar
- Mae un therapydd chwarae arbenigol (rhan amser) yn y Tîm Cymorth Cynnar
- Cwnselwyr mewn ysgolion
- Cwnselwyr yn yr ysgol
- B2P (Adeiladu at Gynnydd) – darpariaeth addysgol i blant sydd â phroblemau iechyd meddwl

Yn ogystal â'r gwasanaethau canolog hyn, mae'r ysgolion yn defnyddio ystod eang o ymagweddau ac arferion sydd â'r nod o gefnogi lles emosiynol a meddyliol ein plant.

Darperir gwasanaethau i blant ar lefelau mwy acíwt gan ABMU.

Gofynnodd y Cynghorydd Hussain gwestiwn ychwanegol o ran pan gaiff Swyddogion Lles eu cyflwyno i ysgolion. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Addysg a Chefnogaeth Deuluol fod nifer o fentrau ar waith a bod rhai ysgolion eisoes â Swyddogion Lles ar waith.

**<u>Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Tim Thomas</u>**

Tynnwyd y cwestiwn hwn yn ôl gan y Cynghorydd Thomas.

**<u>Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Gymunedau gan y Cynghorydd MC Voisey</u>**

A all yr Aelod Cabinet ddweud pa faint o Gartrefi Amlfeddiannaeth
(HMO) o bob maint sydd yn sir Pen-y-bont ar Ogwr, a'u dosbarthiad yn ôl wardiau?"

**<u>Ymateb:</u>**

Prif Swyddogaeth SPG yw rhoi eglurder ar bolisi neu strategaeth penodol y cynllun datblygu. Nid oes unrhyw bolisi penodol yn CDLl Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas a HMO ac nid yw'r cynllun yn gwneud unrhyw ymrwymiad i gynhyrchu SPG HMO, yn wahanol, er enghraifft i Fannau Agored neu Ddylunio. Mae llunio SPG yn ddwys iawn o ran adnoddau ac mae'n cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, er enghraifft bu'r SPG mannau agored yn cael ei gynhyrchu ers tipyn ac ni ellir cymryd penderfyniad i gychwyn ar SPG ar chwarae bach.

Hefyd, ni fydd SPG a fydd yn berthnasol ar draws y Bwrdeistref Sirol o reidrwydd yn cyfyngu ar ddatblygu ac mewn rhai achosion bydd o bosibl hyd yn oed yn rhoi cyfiawnhad am gynnig, yn enwedig os gosodwn feini prawf am asesu. Mewn geiriau eraill, os bydd HMO arfaethedig yn cydymffurfio â'r SPG, gellid cymryd y dylid caniatáu'r caniatâd cynllunio. Gallai hyd yn oed 'cyfeirio' datblygiadau HMO heb sylweddoli i

ardaloedd yng nghanol trefi lle y mae eiddo mwy o faint a pholisïau parcio ceir ymlaciedig yn debygol o fod. Ar hyn o bryd mae unrhyw gais o'r fath yn cael ei bennu ar ei rinwedd ei hun.

Cawsom 5 cais am HMOs a 7 cwyn gorfodi ledled y Bwrdeistref Sirol dros y 3 blynedd diwethaf, na fyddai'n awgrymu bod problem benodol gyda'r math hwn o ddatblygiad yn yr ardal ehangach, fodd bynnag, mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol bod newidiadau diweddar i'r Gorchymyn Dosbarthiad Defnydd ac nawr mae wedi dod â HMOs llai o dan reolaeth cynllunio a gallai hyn arwain at fwy o gymwyseddau yn y dyfodol. Rwy'n gwerthfawrogi eich pryderon am ormodedd o HMOs mewn ward penodol a gallai hyn o bosibl newid cymeriad y lle dros amser. Mae hyn yn rhywbeth y gallwn edrych arno fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun datblygu (pa bynnag ffurf mae'n ei chymryd), ond bydd angen i hyn gael ei arwain gan dystiolaeth a bydd yr asesiad ar anghenion tai lleol hefyd yn roi rhagor o wybodaeth am alwadau'r dyfodol ar gyfer cyflenwad tai ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yn y cyfamser, bydd unrhyw gynnig yn destun asesiad cynllunio arferol hefyd yn cymryd i ystyriaeth bryderon am grynoadau defnyddiau penodol mewn ardal fach. Mae'n bosibl y bydd rheoliadau eraill a orfodir o dan drefnau trwyddedu neu gydsynio, a allai fod yn berthnasol.

Mae'n ofynnol cynnal a chadw rhestr o HMOs trwyddedig y mae'n ofynnol i Wasanaethau Rheoliadol a Rennir ei chynnal a'i chadw, a hefyd cyflwyno rhestr o HMOs na ellir eu trwyddedu o fewn y Bwrdeistref. Cafodd y rhestr hon ei chynhyrchu wrth ystyried data hanesyddol a gafwyd gan geisiadau gwasanaeth i'r adran a hefyd arolwg stryd a gwblhawyd yn 2015/16 er mwyn adnabod HMOs posibl.

Gofynnodd y Cynghorydd Gwestiwn atodol o ran pa gamau gweithredu a gymerir gan yr awdurdod i sicrhau diogelwch preswylwyr lle y bo'r eiddo maent yn byw ynddynt yn HMOs heb eu cofrestru ac yn anhysbys a gwneir y gwaith gydag asiantaethau partner. Dywedodd Arweinydd y Tîm Cymdogaethau y bydd Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn gweithredu ar gwynion a dderbynnir gan denantiaid, y dreth Gyngor, Rheolaeth Adeiladu, yr Adran Gynllunio a'r Gwasanaeth Tân mewn perthynas ag eiddo sydd heb eu trwyddedu. Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar hyn o bryd yn paratoi erlyniaeth yn erbyn perchennog eiddo heb ei drwyddedu, a oedd wedi methu cyflwyno cais am drwydded. Dywedodd Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymdogaethau wrth y Cyngor nad yw y mwyafrif o HMOs yn y Bwrdeistref Sirol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Trwyddedu Gorfodol (eu bod o 3 llawr neu fwy ac mae ganddynt 5 neu fwy o feddianwyr ac felly nid oes angen trwydded. Fodd bynnag mae deddfwriaeth arall megis y Rheoliadau Rheoli y mae'n ofynnol iddynt eu bodloni. Dywedodd fod Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn bwriadu gwneud ymarfer post a dargedir er mwyn codi ymwybyddiaeth a gorfodaeth i sicrhau bod perchnogion yn bodloni gofynion y Ddeddf Tai a Rhentu Doeth Cymru.

151. HYSBYSIAD O GYNNIG GAN Y CYNG. DR ALTAF HUSSAIN

Cafodd yr Hysbysiad o Gynnig ei dynnu yn ôl gan y Cynghorydd Hussain.

152. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi gwybod i'r Cyngor am yr Adroddiad Gwybodaeth a gafodd ei gyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r dogfennau a restrir yn yr adroddiad:-

| Teitl | Dyddiad Cyhoeddi |
| --- | --- |
| Trafodaethau partïon perthynol 2017 – 18 a Datganiad Cyfrifon | 22 Mawrth 2018 |

153. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

154. EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio) (Cymru 2007, dylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes canlynol oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12, 14 a 16 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A y Ddeddf.

Ar ôl cymhwyso'r prawf diddordeb y cyhoedd, penderfynwyd, yn dilyn y Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, i ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, oherwydd yr ystyriwyd, yn yr holl amgylchiadau sy'n perthyn i'r eitem, roedd buddiant y cyhoedd o ran cadw'r eithriad yn gorbwyso buddiant y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

155. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

156. COSTAU DILEU SWYDDI AC YMDDEOLIAD CYNNAR SY'N FWY NA £100,000

Daeth y cyfarfod i ben am 18:04